COFNODION HEB EU CADARNHAU CYFARFOD CAEEDIG
BWRDD YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU
A GYNHALIWYD DDYDD IAU 30 GORFFENNAF 2015, YN SEFYDLIAD MEDDYGOL WRECSAM YN Y GANOLFAN PARC TECHNOLEG, WRECSAM

AELODAU'R BWRDD YN BRESENNOL:

Martin Woodford	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd (cadeiriodd y cyfarfod)
Emrys Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
Kevin Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
Mick Giannasi	Cadeirydd y Bwrdd
Judith Hardisty	Cyfarwyddwr Datblygu Gweithlu a'r Sefydliad
Sara Jones	Cyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio
Brendan Lloyd	Cyfarwyddwr Meddygol
James Mycroft	Cyfarwyddwr Anweithredol
Patsy Roseblade	Cyfarwyddwr Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
David Scott	Cyfarwyddwr Anweithredol

CYNRYCHIOLWYR BWRDD YR YMDDIRIEDOLAETH:

Hugh Bennett	Penaeth Cynllunio a Pherfformiad
Hannah Evans	Pennaeth Datblygu Strategol a Chymorth
Nathan Holman	Cynrychiolydd ochr y staff
Lois Hough	Uwch Swyddog Cyfathrebu
Steve Owen	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol
Bleddyn Roberts	Cynrychiolydd ochr y staff
Gordon Roberts	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Gweithrediadau (Gwasanaethau Meddygol Brys)
Dawn Sharp	Ysgrifennydd Corfforaethol
Jonathan Sweet	Swyddog Staff, Gweithrediadau
Claire Vaughan	Cyfarwyddwr Cyswllt Gweddnewid y Gweithlu
Jonathan Watts	Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni

YMDDIHEURIADAU

Mike Collins	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Mike Coupe	Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad
Nigel Heal	Cynrychiolydd ochr y staff
John Morgan	Cyfarwyddwr Anweithredol
Tracy Myhill	Prif Weithredwr

20/15 MATERION GWEITHDREFNOL

PENDERFYNWYD: Nodi datganiad sefydlog Mr Emrys Davies fel aelod wedi ymddeol o UNITE.

21/15 DIWEDDARIAD AR Y BROSES RECRIWTIO PRIF WEITHREDWR

Sicrhaodd Cadeirydd y Bwrdd yr Aelodau fod y broses o ddethol y Prif Weithredwr wedi bod yn gadarn a thrwyadl. Nid oedd gan y panel cyfweld unrhyw amheuaeth mai Tracy Myhill oedd yr ymgeisydd delfrydol i arwain yr Ymddiriedolaeth wrth symud ymlaen ac ychwanegodd ei fod yn falch o gyhoeddi y cynigiwyd y swydd iddi. Esboniodd Cadeirydd y Bwrdd y camau gweinyddol nesaf yn y broses recriwtio i'w cwblhau. Roedd y Bwrdd yn cytuno y gwnaed y dewis cywir yn dethol Tracy fel y Prif Weithredwr i fynd â'r Ymddiriedolaeth ymlaen.

PENDERFYNWYD: Nodi'r diweddariad ar y broses recriwtio'r Prif Weithredwr.

22/15 PROSIECT CHWILOTA CWM TAF

Cyflwynodd Jonathan Sweet grynodeb i'r Bwrdd ynghylch y gweithgarwch presennol o ran adnoddau, y galw, defnyddio ambiwlansys preifat a goramser/amser dwbl. Cynghorodd y Bwrdd fod y perfformiad yn ardal Cwm Taf wedi gwella fis ar ôl mis. Roedd dadansoddi y data manwl wedi dangos fod cael yr adnoddau cywir i ymdrin â'r claf cywir ar yr amser cywir gyda'r sgiliau cywir wedi arwain at ryddhau capasiti Gwasanaethau Meddygol Brys sylweddol i ganiatáu iddynt ymdrin â galwadau mwy aciwt.

Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r prosiect ac unwaith y derbyniwyd cyngor cyfreithol byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli. Ychwanegodd yr Is-gadeirydd y byddai'r Bwrdd yn disgwyl derbyn yr adroddiad unwaith y bo'r cyngor cyfreithiol wedi'i dderbyn a chroesawodd y sylwadau a ganlyn:

- Sylwadau ochr y staff oedd bod defnyddio criwiau'r Gwasanaeth Gofal Brys yn eu rôl penodol a pheidio â'u defnyddio fel yr ymateb cyntaf i alwadau brys yn amlwg yn cael canlyniad dilynol enfawr os nad oeddynt yn cael eu defnyddio yn y modd cywir.

- Cytunodd Cadeirydd y Bwrdd i fwrw ymlaen â'r mater o 'lle nesaf' o ran ystyried ffyrdd o gynnal yr adnodd hwn yn y dyfodol ac i drafod hyn â'r Prif Weithredwr.

- Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Gweithrediadau (Gwasanaethau Meddygol Brys) bwysigrwydd defnyddio'r criwiau Gwasanaeth Gofal Brys yn briodol a chynghorodd fod hyn yn gwbl elfennol i'r prosiect.

PENDERFYNWYD: nodi'r diweddariad ar Brosiect Chwilota Cwm Taf.

23/15 ADOLYGIAD GWEITHIO I WELLA

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Meddygol y Bwrdd fod y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio yn y broses o derfynu'r adolygiad a oedd yn cynnwys cynllun 100 niwrnod a chyflwynodd y Cyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio grynodeb cryno o'r gwaith a wnaed hyd yma. Yna cynghorodd y Cyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion.

PENDERFYNWYD: Cyflwyno'r adolygiad Gweithio i Wella a'r cynllun 100 niwrnod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion.

24/15 AD-DREFNU'R GANOLFAN GYSWLLT CLINIGOL

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu y Bwrdd mai bwriad yr adroddiad a gyflwynwyd oedd darparu diweddariad i'r Bwrdd ar y cynllun i ddatblygu'r arfarniad opsiynau.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh fod tystiolaeth i gefnogi manteision ystafell reoli ar y cyd rhwng gwasanaethau ac mai hwn oedd un o'r argymhellion yn deillio o adroddiad Williams.

O ran yr elfen 111, cynghorodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh na fyddai'r Ymddiriedolaeth fyth mewn sefyllfa lle byddai ystafell reoli ar wahân ar gyfer 111 lle'r oedd un yn bodoli eisoes ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans.

Anogodd Cadeirydd y Bwrdd y Bwrdd i gefnogi'r argymhelliad.

Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at drafodaeth flaenorol â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol lle'r oedd sawl mater wedi eu gwyntyllu, a bod angen gwneud y gwasanaeth yn addas i'r dyfodol a bod angen rhagor o waith i ymdrin â'r risgiau. Dywedodd fod y Bwrdd o blaid y cynnig Achos Amlinellol Strategol, o gydnabod yr amodau a nodwyd.

PENDERFYNWYD:

(1) nodi'r sefyllfa o ran y cynllun ar gyfer arfarniad opsiynau ad-drefnu Canolfannau Cyswllt Clinigol yn ne Cymru; a

(2) cefnogi'r cynnig i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer ystafell reoli ar y cyd i'w lleoli yng ngogledd Cymru.

25/15 EITEMAU CYDSYNIO

Diweddariad ynghylch Achosion Cyfreithiol

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Meddygol y byddai adroddiad wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Ystyried Adroddiad Blynyddol drafft yr Ymddiriedolaeth

Darparwyd copi caled o'r adroddiad i'r aelod a gofynnwyd iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau arno erbyn dydd Mawrth, 4 Awst 2015.

PENDERFYNWYD:

(1) nodi'r diweddariadau; a

(2) cyflwyno sylwadau ar Adroddiad Blynyddol drafft yr Ymddiriedolaeth i'r Ysgrifennydd Corfforaethol erbyn 4 Awst 2015.